

## BLODAU GWYLLT CYMREIG YN YR U.D.

Carol Trosset

Mae llawer o flodau gwyllt sydd yn frodorol i Ohio yn yr U.D. Coedwig yw'r amgylchedd naturiol yma a gwanwyn yw tymor y blodau gwyllt. Mae'r planhigion hyn yn codi ar ôl i'r eira fynd, ac yn gorffen pan mae dail y coed yn cysgodi'r ddaear. Tua mis Mawrth, mae'r tymor yn dechrau gyda nifer o flodau bach gwyn fel *Harbinger of Spring* (*Erigenia bulbosa*) a *Bloodroot* (*Sanguinaria canadensis*). Ym Mis Ebrill mae'r goedwig yn lliwgar, gyda *Virginia Bluebells* (*Mertensia virginica*), *Wood Poppy* (*Stylophorum diphyllum*), *Wakerobin* (*Trillium sessile*), ac yn y blaen. Erbyn mis Mai, mae rhan fwyaf o flodau gwyllt yn rhyw fath o borffor (mae gwenyn yn hoff o borffor) fel *Wild Geranium* (*Geranium maculatum*), neu gwyrdd fel *Jack-in-the-Pulpit* (*Arisaema triphyllum*).



Harbinger of Spring



Bloodroot



Virginia Bluebells



Wood Poppy



Wakerobin



Wild Geranium



Jack-in-the-Pulpit

Mae rhai blodau yma hefyd sydd yn frodorol i Ewrop, ac sydd yn blodeuo yng Ngymru. Mae planhigion ac anifeiliad sy'n frodorol i unrhyw le wedi esblygu gyda'i gilydd, sy'n golygu bod y blodau'n gallu byw yn yr un pridd, ac mae popeth yn cael ei fwyta gan rhywbeth arall. Mae yn wahanol gyda phlanhigion anffrodorol. Ar ôl cyrraedd America, maen nhw'n byw heb eu gelynyon gwyllt. Yn aml, ar ôl dechrau mewn garddi, maen nhw wedi dianc a mynd yn naturiol. Weithiau mae hynny'n berffaith iawn a mae blodau newydd yn dod yn rhan o'r amgylchedd. Ar y llaw arall, mae rhai blodau o Ewrop wedi dod yn ymledol yn America. Dyma rhai o'r mwyaf cyffredin sy'n bwy yn Ohio.

### Blodau Gwyllt Anffrodorol

- Bleidd-dag y gaeaf, *Eranthus hyemalis*, *Winter Aconite*
- Eirlys, *Galanthus nivalis*, *Snowdrop*

- Clychau'r cog, *Hyacinthoides hispanica*, Spanish Bluebells
- Seren Fethlehem, *Ornithogalum umbellatum*, Star of Bethlehem

Cyn ymddangosiad unrhyw un o'r planhigion brodorol, mae Bleidd-dag y gaeaf ac Eirlys yn blodeuo. Eirlys yw un o'r blodau gardd anwylaf yma; mae pawb yn hapus i'w weld oherwydd bod y gaeaf bron wedi gorffen. Mae Bleidd-dag y gaeaf yn llai adnabyddus, ond mae'r ddau wedi mynd yn wyllt yn y coed. Mae Bleidd-dag y gaeaf yn tyfu dros ardaloedd mawr, tra mae Eirlys yn aros mewn clystyrau bach.

Rhwng 1957 a 1997, cadwodd fy mam (Ruth Pierle Trosset) gofnodion am pryd oedd bob rhywogaeth yn dechrau blodeuo. Pryd hynny, roedd Bleidd-dag y gaeaf ac Eirlys yn blodeuo yr un pryd a Harbinger of Spring – ddechrau Mis Mawrth fel arfer. Mae hynny wedi newid. Ers 2018 mae nghyfaill Sandra Murphy wedi bod yn cadw cofnodion er cymhariaeth. Mae'r ddau o Ewrop wedi dod yn gynharach, ond d'ydychydig yn ystod y gaeaf 'does dim byd brodorol yn blodeuo. Wrth ini gael gaeafau cynhesach, mae Bleidd-dag y gaeaf ac Eirlys wedi dod i lenwi cilfach wag.

	1960au	1980au	2018-2023	2023
Bleidd-dag y Gaeaf		11 Chwefror	5 Chwefror	4 Ionawr
Eirlys	1 Mawrth	20 Chwefror	15 Chwefror	10 Ionawr
Harbinger of Spring (blodyn gyntaf brodorol yn Ohio)	19 Mawrth	8 Mawrth	8 Mawrth	22 Chwefror

Mae gaeafau wedi newid yma hefyd. 'Does dim cymaint o eira, a 'dydy hi ddim yn mynd mor oer ag yr oedd hi. Eleni, dim ond dwywaith mae hi wedi bwrw eira, a hynny dim ond ychydig bach. Yr oedd y gwenyn yn hedfan ar ddechrau mis Ionawr. ('Doedd hynny erioed yn digwydd pan o'n i'n blentyn.) Nawr, mae rhaid i'r gwenyn cael blodau i fwydo, ac yn ystod y gaeaf 'does dim byd brodorol yn blodeuo. Wrth ini gael gaeafau cynhesach, mae Bleidd-dag y gaeaf ac Eirlys wedi dod i lenwi cilfach wag.



Bleidd-dag y Gaeaf gyda Gwenynen Eirlys



Clychau'r Cog

Mae Clychau'r Cog yn blodeuo yng nghanol Mis Ebrill, ychydig ar ôl *Virginia Bluebells* sydd yn edrych reit debyg. Dydy'n nhw ddim wedi mynd mor naturiol â'r Eirlys, yn aros eitha agos i lle byddai gerddi. (Nid oes Côg yn America, chwaith.) Mae Seren Fethlehem yn blodeuo diwedd Mis Ebrill neu ddechrau mis Mai. Nid yw hi yn ymledol, ond mae pobl yn poeni am drafferth yn y dyfodol. Hefyd mae ynddi hi gemegau sydd yn wenwynig i wartheg a defaid.

#### Chwyn

- Dant y Llew, *Taraxacum officinale*, Dandelion
- Rhwyddlwyn Dail Eiddew, *Veronica hederifolia*, Ivy-Leaved Speedwell
- Berwr Chwerw Blewog, *Cardamine hirsuta*, Hairy Bittercress

- Berwr y Gaeaf, *Barbarea vulgaris*, *Winter Cress*

Mae rhain fel arfer yn tyfu yng nghanol y glaswellt, oherwydd eu bod yn hoff o ardaloedd ansefydlog. Mae'n debyg bod pobl wedi dod a nhw i America fel bwyd a meddygaeth werin. Mae Dant y Llew yn dal i gael ei fwyta gan rhai yma. Ond mae llawer mwy o bobl yn defnyddio chwynladdwyr ar eu glaswellt i'w lladd nhw.

#### Planhigion Ymledol

- Croes yr Hwyr, *Hesperis matronalis*, *Dame's Rocket*
- Garlleg y Berth, *Alliaria petiolata*, *Garlic Mustard*
- Llygaid Ebrill, *Ficaria verna*, *Lesser Celandine*

Fel y chwyn, mae Croes yr Hwyr a Garlleg y Berth yn gallu cael eu bwyta. Dw i wedi gwneud pesto allan o Arlleg y Berth. Yn anffodus, mae'r ddau hyn wedi dianc o'r gerddi ac yn tyfu ym mhob man ar eu pennau eu hunain. Maen nhw wedi dod mor gyffredin fel eu bod yn gwthio allan y planhigion brodorol. Mae hynny'n digwydd yn arbenning mewn llefydd gwlyb. Yn ystod Mis Mai, 'dyn ni'n dod at ein gilydd i dynnu Garlleg y Berth cyn iddi orffen blodeuo. Ar ôl gwneud hynny, ni fydd cymaint o hadau flwyddyn nesaf.

Rwan, deawn ni at y blodyn gwaethaf: Llygaid Ebrill. Mae'n ddrwg gennyf ddweud hynny, oherwydd mae'n dlws, a gwelais ar Grwp Facebook Cymuned Llên Natur luniau ohono yn tyfu mewn clystyrau bach neis. Mae'n wahanol yma yn Ohio, lle mae'n gorchuddio'r ddaear. 'Does dim byd yn gallu tyfu tu mewn i glystwr o Lygaid Ebrill. Mae ganddo fylbiau bach sy'n gwneud planhigion newydd heb hadau [mae'r bylbiau hyn yn rhoi iddo ei enw Cymraeg amgen blodau clwy'r marchogion (y 'peils')! Gol.]. Mae'r bylbiau yn sticio ar draed ceirw, ac mae'r ceirw yn eu cludo i lefydd arall. Chwynladdwyr ydy'r unig ffordd i gael gwared ohono, ac mae'n cymryd mwy nac un flwyddyn. Mae pawb yma sydd yn hoff o flodau gwyllt yn casau Llygaid Ebrill, a rydym ni'n ei ofn.



Garlleg y Berth



Llygaid Ebrill



Gormod o Lygaid Ebrill

**Am yr Awdwr:** Americanes ydw i, wedi dysgu Cymraeg tra byw yng Nghymru am ddwy flynydd yn yr 1980au. Mwynheais i gerdded yng Ngogledd Gymru o Plas Tan y Bwlch neu gyda Cymdeithas Edward Llwyd. Es i i'r Burren yng Ngorllewin Iwerddon 1987 gyda Cym E.LI., i weld y blodau gwyllt yna. Roedd fy rhieni yn hoff iawn o fyd natur, a dw i newydd gyhoeddi llyfr am y natur yn ein coed bach ni ([The Woods: The Natural History of an Acre in Southwestern Ohio](#)). Dw i'n ddiolchgar i Twm Elias a Duncan Brown am fy ngwahodd i ysgrifennu yr erthygl bach yma.